Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Gwaun Gynfi
Deiniolen
Gwynedd
LL55 3LT

20/12/2024

Annwyl Catrin Gwilym

**Ymweliad Interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gwaun Gynfi yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Mai 2022. Isod, ceir crynodeb o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny.

Yn ystod yr ymweliad cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad a disgyblion
- gyfarfod gydag athrawon ac arweinwyr
- graffu ar waith disgyblion
- graffu ar ddogfennaeth

Ers yr arolygiad craidd, mae arweinwyr wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion canlynol.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau'r cyfleoedd i'r disgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac i weithio'n fwy annibynnol**

- Mae datblygiad proffesiynol buddiol i staff wedi arwain at rannu a chysoni arferion da ar draws yr ysgol. Mae staff ac arweinwyr wedi cydweithio'n effeithiol i ddatblygu annibyniaeth y disgyblion ar draws yr ystod oedran a gallu.
- Mae cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion werthuso eu gwaith eu hunain neu gyfoedion yn unol â meini prawf llwyddiant y sesiynau dysgu.
- Mae disgyblion yn cyfrannu syniadau yn briodol ar gyfer yr hyn yr hoffent ei ddysgu. Cânt gyfleoedd buddiol i gydweithio gyda cyfoedion am gyfnodau estynedig gan ddethol lefel yr her ar gyfer eu gweithgareddau a'u dull o gofnodi a chyflawni tasgau.
- Ar draws yr ysgol mae'r staff yn darparu amrediad buddiol o brofiadau sydd wedi eu cynllunio'n fwriadus i herio'r disgyblion, gan gynnwys oddi fewn i



Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

dasgau dan arweiniad staff ac wrth i'r disgyblion gymhwyso'u medrau'n annibynnol.
- Datblygwyd trefniadau i rannu gwybodaeth am gynnydd disgyblion a bellach mae'r disgyblion yn cyfrannu'n fuddiol wrth drafod a dangos eu gwaith i'w rhieni.

**Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig ac i gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm.**

- O oedran cynnar, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol.
- Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn dechrau cymhwyso eu medrau mewn ffurfiau gwahanol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae athrawon yn defnyddio cyd-destunau go iawn yn fedrus i sbarduno gwaith ysgrifennu'r disgyblion yn llwyddiannus.
- Mae rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yr ysgol yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ystod briodol o gyd-destunau.
- Mewn ychydig iawn o achosion, collir cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ysgrifennu hyd eithaf eu gallu oherwydd bod yr addysgu a'r cynllunio yn gor-arwain y disgyblion, er enghraifft drwy'r gorddefnydd o fframweithiau ysgrifennu parod.
- Mae athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm.
- Darperir cyfleoedd niferus i ddisgyblion ieuengaf yr ysgol gymhwyso medrau rhifedd mewn cyd-destunau ymarferol buddiol. Er enghraifft, mae disgyblion oedran meithrin yn mesur taldra pwmpen gyda blociau, tra bod disgyblion Blwyddyn 2 yn defnyddio llinyn a phren mesur i fesur cylchedd pwmpen.
- Mae llawer o ddisgyblion hynaf yn cymhwyso medrau rhifedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn trin data am waith chwarelwyr o Oes Fictoria ac yn ei gyflwyno'n gywir. Maent yn mesur yn fanwl gywir wrth drin coed i adeiladu lloches Ail Ryfel Byd ac wrth bwyso cynhwysion wrth goginio.
- Yn diweddar, mae arweinwyr wedi dechrau cydweithio gyda'r ysgol uwchradd leol ac ysgolion cynradd lleol i greu continwwm medrau rhifedd cytûn. Er yn ei ddyddiau cynnar, mae hy yn cychwyn rhoi darlun defnyddiol i athrawon o ddatblygiad disgyblion dros amser.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol/UCD a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612000

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol